CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

CANLLAWIAU

GRANTIAU GWEITHGAREDDAU MARCHNATA BACH

## 1 NODAU

Nod y cynllun hwn yw helpu cyhoeddwyr yng Nghymru i hyrwyddo llyfrau neu gylchgronau Saesneg er mwyn hybu gwerthiant. Yn achos llyfrau, pwrpas grantiau Gweithgareddau Marchnata Bach yw helpu teitlau unigol a chanddynt werth llenyddol i gael mwy o sylw cyhoeddus. Bwriedir i'r cynllun ariannu gweithgareddau marchnata canolig fel lansiadau bach a hysbysebu. O'u targedu'n ofalus, bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar gyfer nifer o deitlau hefyd yn gymwys i dderbyn cymorth lle bo posibilrwydd clir o wella gwerthiant teitlau penodol. Nid yw ymgyrchoedd hyrwyddo cyffredinol (lle mai hyrwyddo'r cyhoeddwr neu'r wasgnod yw'r prif nod) yn flaenoriaeth. Ar gyfer cylchgronau, gallai gweithgareddau marchnata bach gynnwys hyrwyddo rhifyn neu deitl arbennig (fel nofel neu bamffled a gyhoeddwyd gan y cylchgrawn), digwyddiad lansio ar gyfer teitl neu rifyn unigol, neu wobrau a hyrwyddo ar gyfer cystadleuaeth.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn gweinyddu cynllun marchnata ar gyfer teitlau Saesneg y mae disgwyl iddynt werthu mwy (gweler Grantiau Marchnata) a chynllun ar gyfer llyfrau Cymraeg, y mae canllawiau ar gael ar wahân ar eu cyfer.

## 2 CYMHWYSEDD

***Pwy gaiff wneud cais?***

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr yng Nghymru â rhaglen gyhoeddi reolaidd, neu gynlluniau hyfyw o sefydlu rhaglen felly. Mae cyhoeddwyr cylchgronau sy'n cynhyrchu cynnwys rheolaidd mewn fformat print, digidol neu hybrid hefyd yn gymwys.

***Pa lyfrau ellir eu hyrwyddo?***

Mae'r cynllun hwn yn hyrwyddo ystod eang o lyfrau. Ceir y prif gategorïau cymwys yn y rhestr sy'n dilyn. Mae'n bosibl y gellid ariannu teitlau mewn categorïau eraill:

- os ydynt yn debygol o greu refeniw sylweddol fydd yn caniatáu i gyhoeddwr fuddsoddi yn ei raglen ysgrifennu yn Saesneg yng Nghymru *ac/neu*
- os ydynt o gryn ddiddordeb Cymreig.

- Celfyddyd a phensaernïaeth
- Bywgraffiadau
- Llyfrau plant
- Llyfrau comig a nofelau graffig
- Coginio
- Hanes diwylliannol
- Twristiaeth ddiwylliannol (ond nid arweinlyfrau)
- Materion cyfoes
- Ffuglen
- Hanes (ond nid hanes lleol)
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth, llwyfan a sgrin
- Ffotograffiaeth
- Cyfeiriol
- Crefydd ac ysbrydolrwydd
- Natur
- Chwaraeon
- Teithio

Nid yw'r categorïau canlynol yn gymwys am gymorth fel arfer.

- Llyfrau cyfeiriadau, dyddlyfrau, dyddiaduron, ac ati
- Creiriau ac eitemau casgladwy – canllawiau defnyddwyr
- Adeiladu
- Iechyd a ffitrwydd
- Gwyliau
- Cartref a gardd
- Hobïau
- Ieithoedd

- Busnes
- Crefftau'r cartref
- Addysg: dulliau a deunyddiau dysgu (ac eithrio lle bo'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol ag ysgrifennu Saesneg yng Nghymru)
- Teulu
- Cyllid
- Gemau a phosau
- Arweinlyfrau
- Y Gyfraith
- Ffordd o fyw
- Hanes lleol
- Mapiau ac arweinwyr
- Hunangymorth
- Llawlyfrau technegol

Nid yw'r un o'r rhestrau hyn yn gwbl gynhwysfawr. Lle bo ansicrwydd a yw llyfr yn gymwys, gofynnir i gyhoeddwyr drafod eu cynigion gydag Adran Datblygu Cyhoeddi y Cyngor Llyfrau cyn cyflwyno cais. Mae'r categorïau hyn yn berthnasol yn gyffredinol i gylchgronau hefyd, o ran pa gynnwys sy'n gymwys; anogir cyhoeddwyr i gysylltu â'r Adran Datblygu Cyhoeddi gydag unrhyw ymholiadau penodol.

Rydym yn croesawu ceisiadau am lyfrau sy'n helpu i gynyddu amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig gwaith sy'n cyfleu profiadau bywyd awduron du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 3 MEINI PRAWF ASESU A BLAENORIAETHAU

Rhoddir ystyriaeth i'r blaenoriaethau canlynol wrth ystyried ceisiadau grant.

***Llyfrau/Cylchgronau/Cynlluniau marchnata***

Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo llyfrau a gefnogir â Grant Llyfr Llenyddol Unigol, a chylchgronau a gefnogir gan y Grant Cylchgronau Bach a Gweisg Bychain, er y gellir ystyried teitlau a chylchgronau eraill lle bo arian yn caniatáu.

Yr ail flaenoriaeth yw asesu cryfder y cynllun marchnata, a gaiff ei fesur yn ôl y meini prawf canlynol (nad ydynt wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth):

- ansawdd y dylunio a'r cynhyrchu;
- ansawdd yr ysgrifennu a'r golygu;
- cynllun marchnata wedi ei dargedu'n ofalus;
- gwerth am arian;
- gwerth ychwanegol: rhaid i gyhoeddwyr ddangos sut mae'r cynlluniau marchnata arfaethedig yn ychwanegu at wasanaethau canolog cyfredol y diwydiant llyfrau yng Nghymru a gweithgaredd marchnata'r cyhoeddwr ar y pryd;

Lle bo digon o arian ar gael, gellir ymestyn y cynllun hefyd i gefnogi teitlau priodol a gefnogir gan gyhoeddwr arian refeniw, a theitlau eraill o ddiddordeb Cymreig.

***Cyhoeddwr***

Mewn achosion lle gofynnir am Grantiau Marchnata ar gyfer llyfrau heb unrhyw ddiddordeb Cymreig penodol, rhoddir blaenoriaeth i'r teitlau hynny sy'n debygol o greu refeniw gwerthiant a ddefnyddir wedyn i gefnogi rhaglen gyhoeddi o lyfrau perthnasol i Gymru. Byddwn felly'n ystyried y ffactorau canlynol:

- cryfder rhestr a rhaglen y cyhoeddwr ar y pryd, yn arbennig ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru;
- i ba raddau y mae rhestr y cyhoeddwr o ysgrifennu Saesneg yng Nghymru'n debygol o elwa o'r refeniw y bydd y prosiect arfaethedig yn ei greu;
- hanes y cyhoeddwr o gadw at amserlenni cyhoeddi;

***Perthnasedd i Gymru***

- lle bo pob ffactor arall yn gyfartal, rhoddir blaenoriaeth i brosiectau'n cynnwys awduron ac arlunwyr sy'n Gymry neu'n byw yng Nghymru, ac/neu lyfrau am destunau Cymreig.

## 4 Y GRANT

- Oddeutu £9,000 yw'r gyllideb flynyddol gyfan ar gyfer y cynllun hwn.
- Disgwylir na fydd y rhan fwyaf o grantiau a gynigir dros £1,000, er y gellir cynnig grant uwch mewn amgylchiadau eithriadol.

## 5 TREFN AC AMSERLEN GWNEUD CEISIADAU

- Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen gais [GA SMAG (2021)], sydd ar gael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, fel arfer yn Chwefror, Mai, Gorffennaf a Hydref. Nodir y dyddiadau cau ar wefan y Cyngor Llyfrau; fel arall gellir eu cael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol. <u>Dylai cyhoeddwyr ganiatáu digon o amser rhwng cyfarfod yr Is-bwyllgor a dechrau'r gweithgareddau marchnata/hyrwyddo a ddisgrifir yn y ffurflen gais.</u> Os yw'n ymddangos bod y gweithgareddau a gynlluniwyd yn debygol o ddechrau cyn bod dyfarniad wedi ei wneud neu eu bod yn cael eu gohirio wrth aros am benderfyniad fel nad ydynt mor effeithiol, gallai'r Is-bwyllgor wrthod y cais.
- Rhaid i bob cyhoeddwr sy'n derbyn Grant Gweithgareddau Marchnata Bach lynu wrth Amodau a Thelerau Cyffredinol cymorth grant ar gyfer y cynllun hwn, gweler [GT&C SMAG (2021)], gan gynnwys darparu data llyfryddol yn brydlon a threfnu bod teitlau sy'n derbyn cymorth grant ar gael drwy'r sianeli masnachu arferol (gan gynnwys Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau). <u>Gofynnir i gyhoeddwyr ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon cyn bwrw ymlaen â chais</u>.

***Grantiau Marchnata Wrth Gefn***

Er mwyn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynllun hwn, mae trefn ymgeisio wahanol ar gyfer Grantiau Marchnata Wrth Gefn.

- Gellir gwneud cais am Grantiau Marchnata Wrth Gefn ar unrhyw adeg er mwyn i gyhoeddwyr allu elwa ar lwyddiant annisgwyl. Rhaid i'r cyhoeddwr allu dangos bod <u>angen</u> y cyfle marchnata ac <u>na ellid bod wedi ei ragweld</u>.

- Fel arfer, ar ôl cyhoeddi y bydd y cyfleoedd hyn na chafodd eu rhagweld yn digwydd, e.e. i elwa ar deitl yn cael hwb o gael ei osod ar y rhestr fer ar gyfer gwobr, neu lwyddiant annisgwyl teitl arbennig fel rhywbeth y gellir adeiladu arno. Gallai llyfrau nad ydynt wedi eu cyhoeddi eto fod yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol, ond ni fydd unrhyw lansiadau neu ddigwyddiadau tebyg yn cael eu hystyried, oherwydd dylai'r rhain gael eu cynllunio ymlaen llaw. Ymhlith y gweithgareddau marchnata allai fod yn dderbyniol byddai hyrwyddo mewn siopau cadwyn lle bo angen ffi, neu weithgaredd hyrwyddo cysylltiedig â gwobrau llenyddol, ac ati.

- Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y grantiau wrth gefn bach hyn fydd £9,000 y flwyddyn. Y cyfanswm gwerth grantiau marchnata bach mwyaf a roddir i unrhyw gyhoeddwr unigol mewn un flwyddyn ariannol yw £2,000. Fel arfer bydd y grantiau rhwng 25% a 80% o'r costau.

- Dylai cyhoeddwyr sy'n dymuno gwneud cais am un o'r grantiau hyn gysylltu â'r Cyngor Llyfrau yn y lle cyntaf a dylai lenwi ffurflen gais [GA MG (2021)]. Fel arfer dylai penderfyniad fod ar gael o fewn pythefnos ar ôl derbyn y ffurflen gais. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau ôl-weithredol.

## 6 TALU GRANTIAU

Dylai'r cyhoeddwr wneud cais a bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau'r grant yn un o'r ddau opsiwn talu canlynol:

- **Taliad 1**: Blaendal
  Fel arfer telir hanner y grant ymlaen llaw pan dderbynnir ffurflen gais wedi ei llenwi [GC SMAG (2021)].

- **Taliad 2**: Taliad Terfynol o'r Gweddill
  Fel arfer telir gweddill y grant pan dderbynnir:
  - ffurflen hawlio wedi ei llenwi [GC SMAG (2021)];
  - copïau cyflawn o bob anfoneb berthnasol ar gyfer y prosiect cyfan;
  - adroddiad cryno ar effeithiolrwydd y gweithgareddau a gynhaliwyd (e.e. presenoldeb mewn digwyddiadau, gwerthiant mewn lansiadau, ymateb i hysbysebion, ac ati);
  - pedwar copi cyfarch o'r llyfr(au) a hyrwyddwyd (os yw'r llyfr yn derbyn grant Cyngor Llyfrau arall lle darperir copïau cyfarch, does dim angen darparu set ychwanegol wrth hawlio'r grant hwn oni bai y gofynnir am hynny'n benodol).

**FEL ARALL**, gellir hawlio taliad unigol yn dilyn y gweithgaredd/au marchnata. Os felly dylai cyhoeddwyr ddilyn y drefn a nodir uchod ar gyfer 'Taliad Terfynol o'r Gweddill'.

**Sylwch os gwelwch yn dda bod angen hawlio Taliadau Cyntaf a Therfynol pob Grant Marchnata <u>yn brydlon</u>. Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n cadw'r hawl i ddiddymu neu leihau taliadau nad ydynt yn cael eu hawlio o fewn tri mis i'r dyddiad pan oedd y gweithgareddau marchnata i fod i gael eu cwblhau (fel y nodir ar y ffurflen gais).**

## 7 NEWIDIADAU I'R CAIS GWREIDDIOL

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i newid swm y grant sy'n daladwy os bydd y manylion ar y ffurflen hawlio'n gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol neu os na fydd y cyhoeddwr yn cadw at Amodau a Thelerau Cyffredinol y cymorth grant [GT&C SMAG (2021)]. Rhaid i'r cyhoeddwr nodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol ar y ffurflenni hawlio perthnasol, a dylai drafod unrhyw newidiadau o bwys gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi *ymlaen llaw*. Ymhlith y newidiadau y mae'n rhaid cytuno arnynt ymlaen llaw y mae: newidiadau i'r llyfrau megis newidiadau o ran y cynnwys/cyfranwyr arfaethedig; newidiadau i'r rhediad argraffu; newidiadau i'r gweithgareddau marchnata sy'n cael eu cynnal; newidiadau eraill sy'n debygol o gael effaith ar gyfanswm cyllideb yr ymgyrch farchnata, gwerthiant y llyfr neu botensial marchnata'r llyfr.

## 8 MONITRO A GWERTHUSO GWAITH SY'N CAEL EI ARIANNU

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn i gyhoeddwyr ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ffigurau gwerthiant a refeniw gwerthiant ar gyfer teitlau sy'n derbyn cefnogaeth o dan y cynllun hwn ac mae'n bosibl y bydd hefyd am gael copïau o adolygiadau er mwyn helpu i fonitro ansawdd. Dros gyfnod hirach, rhoddir ystyriaeth hefyd i sut mae'r elw a wneir o'r teitlau hyn o fudd i raglen gyhoeddi ysgrifennu Saesneg yng Nghymru'r cyhoeddwr yn fwy cyffredinol.

**Mae ffurflenni cais a chyngor pellach ar gael oddi wrth:**

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB**
**e-bost: english.grants@books.wales**

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL
GWEITHGAREDDAU MARCHNATA BACH

1 Cynigir y grant ar sail yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais ac unrhyw ohebiaeth atodol. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddiddymu'r grant a ddyfarnwyd mewn achosion ble nad yw un ai'r gweithgareddau marchnata neu'r gwaith cyhoeddedig yn cyfateb i'r manylion a roddwyd ar ffurflen gais neu fel y cytunwyd fel arall.

2 Rhaid i dderbynnydd y grant gydymffurfio ag amodau unrhyw gynllun arall y mae teitlau unigol wedi derbyn cymorth trwyddo ac ag unrhyw amodau ychwanegol neu ofynion cynllun a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu unrhyw lythyr cyflwyno.

3 Mewn achosion lle mae'r grant a ddyfarnwyd yn amrywio o ffigur uchafswm i ffigur isafswm, rhaid cytuno ar y gwir swm perthnasol gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi cyn i'r cyhoeddwr gynnal unrhyw weithgareddau.

4 Rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth sy'n dilyn ar y dudalen tu ôl i'r dudalen deitl ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo neu y mae'r staff y cefnogir eu swyddi â chymorth grant wedi gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ychwanegol at hyn, lle bo logos arianwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar y dudalen tu ôl i'r dudalen deitl, ar y clawr neu rywle arall yn y llyfr, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru ynghyd â'r geiriad a roddir uchod. Dylid hefyd cydnabod cymorth ariannol y Cyngor Llyfrau ym mhob digwyddiad cyhoeddus sydd â'r nod o un ai hyrwyddo neu farchnata teitlau a gefnogwyd. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau bod digon o amser rhwng dyfarnu grant ac argraffu llyfr i ganiatáu cynnwys cydnabyddiaeth. Gallai peidio â chynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn ac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor Llyfrau mewn unrhyw ffordd i awgrymu bod y Cyngor yn derbyn neu'n ymgymryd â chyfrifoldeb i drydydd partïon am ddyledion neu rwymedigaethau derbynnydd y grant (gweler rhif 28).

5 Yn ychwanegol at yr uchod, dylai pob deunydd hyrwyddo, os yw'r fformat yn caniatáu, gynnwys cydnabyddiaeth o gymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru. Defnyddiwch y testun dilynol: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council" ac/neu, os yw'n briodol, logo'r Cyngor Llyfrau. Rhaid i'r cyhoeddwr hefyd gynnwys cydnabyddiaeth ar dudalen briodol gwefan y cyhoeddwr. Os yw'r cyhoeddwr yn ansicr ble mae'n dderbyniol hepgor cyfeiriad at gymorth ariannol y Cyngor Llyfrau, dylai gysylltu â'r Adran Datblygu Cyhoeddi .

6 Dylai unrhyw gyfeiriad at ddosbarthu mewn deunydd masnach neu gyhoeddusrwydd gynnwys manylion cyswllt Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau.

8 Lle caiff unrhyw wefannau neu ffynonellau rhyngrwyd eraill eu crybwyll mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu fasnach sy'n gysylltiedig â'r teitl a gefnogir, gan gynnwys hysbysebion, dylid rhestru gwales.com hefyd.

7 Rhaid i'r cyflenwad llyfrau ar gyfer digwyddiadau / lansiadau a gynhelir mewn siopau llyfrau yng Nghymru fynd drwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau (mewn achosion ble mae gan y siop gyfrif). Os nad oes gan y siop lyfrau gyfrif gyda Chanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau dylai'r cyhoeddwr hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi ymlaen llaw i gael cyngor pellach. Lle trefnir digwyddiadau/lansiadau mewn llefydd heblaw siopau llyfrau, dylai'r cyhoeddwr wahodd siop lyfrau annibynnol leol i gyflenwi llyfrau ar gyfer y digwyddiad (gallai'r siop lyfrau fod yn gymwys am gymorth i helpu i dalu costau darparu'r gwasanaeth hwn drwy Gynllun Ymestyn y Cyngor Llyfrau). Lle nad oes unrhyw siop lyfrau ar gael dylai'r cyhoeddwr roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi er mwyn cael cyngor pellach. Er mwyn sicrhau bod grant yn cael ei ddyfarnu, rhaid i'r cyhoeddwr allu rhoi rheswm cryf iawn dros lansiad lle na ddefnyddir gwerthwyr llyfrau lleol a dylai'r Adran Datblygu Cyhoeddi gael gwybod am hyn cyn y digwyddiad. Gallai peidio â dilyn y drefn hon arwain at ostyngiad yn y grant.

8 Rhaid darparu pob anfoneb ar gyfer yr ymgyrch farchnata wrth hawlio'r grant (oni bai y cytunir fel arall). Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.

9 Disgwylir i'r rheini sy'n derbyn grantiau ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ffigurau gwerthiant teitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn, a'r incwm a'r elw y maent yn ei gynhyrchu. Bydd y Cyngor Llyfrau'n gofyn am weld y ffigurau hyn yn gyson. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth arall, resymol am berfformiad llyfr sy'n derbyn cymorth grant wrth werthuso pa mor effeithiol yw cymorth grant a monitro gwerth am arian.

10 Mae'n bosib y gofynnir i'r cyhoeddwr lenwi ffurflenni byr i'n helpu i werthuso gweithgareddau marchnata a gafodd eu cynnal gyda chymorth y grant. At hyn, mae'n bosib y gofynnir i'r cyhoeddwr roi adroddiad manwl o bryd i'w gilydd ar weithgareddau marchnata penodol a gafodd gymorth grant a chanlyniadau er mwyn helpu'r Cyngor Llyfrau i fonitro a gwerthuso'r cynllun.

11 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant arddangos rhif ISBN 13-digid a chod bar cyfatebol ar glawr pob cyhoeddiad.

12 Dylai data llyfryddol amserol (gan gynnwys ISBN, teitl, awdur, cyhoeddwr, pris, dyddiad cyhoeddi, categori a disgrifiad byr) gyrraedd Swyddog Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau naw mis cyn cyhoeddi neu o fewn pythefnos ar ôl i'r cyhoeddwr dderbyn cynnig grant, pa gyfnod bynnag yw'r byrraf. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei harddangos wedyn ar *gwales.com*.

13 Dylai llun o'r clawr (mae drafft da yn hytrach na fersiwn derfynol yn dderbyniol yn y lle cyntaf) gyrraedd Swyddog Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf dri mis cyn cyhoeddi. Bydd y clawr yn cael ei arddangos wedyn ar *gwales.com*.

14 Dylai derbynnydd y grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno pob gwybodaeth lyfryddol a lluniau o gloriau. Ceir mynediad i'r ffurflen ar-lein trwy gyfrinair, y gellir ei gael trwy gysylltu â'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Lle nad yw hyn yn bosibl dylai derbynnydd y grant drafod hyn gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi .

15 Rhaid i'r cyhoeddwr ddiweddaru pob gwybodaeth am y teitl ar *gwales.com* (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad byr a llun o'r clawr) yn syth fel y bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn ac ar ôl cyhoeddi, hyd nes bod y llyfr allan o brint. Dylai derbynnydd y grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol drwy'r ffurflen ar-lein (neu fel y bydd y Cydlynydd Gwasanaethau Gwerthu a Gwybodaeth yn cynghori). Geiir bwydo gwybodaeth ychwanegol gan y cyhoeddwr yn electronig fel y gwêl y cyhoeddwr yn dda, gan gynnwys

rhestr cynnwys, bywgraffiad awdur, dyfyniadau o adolygiadau a manylion gwobrau a enillwyd.

16 Yn ogystal â rheoli llif gwybodaeth fanwl gywir i'r fasnach lyfrau, dylai derbynnydd y grant hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi am unrhyw oedi o ran y dyddiad cyhoeddi (neu fanylion eraill, e.e. newid teitl) mewn da o bryd ac o leiaf dri mis cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol. Os na chyhoeddir y llyfr o fewn tri mis i'r dyddiad cyhoeddi a roddwyd i'r Adran Datblygu Cyhoeddi , gallai'r grant gael ei ddiddymu'n awtomatig.

17 Ni ddylid cyhoeddi llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn ystod mis Rhagfyr ac ni roddir grant i unrhyw deitl a amserlennwyd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Rhaid i gopïau o unrhyw deitlau mis Tachwedd gyrraedd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Tachwedd. Bydd gostyngiad o £200 yn y grant sy'n daladwy ar lyfrau a gyhoeddir ym mis Rhagfyr, neu deitlau mis Tachwedd sy'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad hwn.

18 Yn achos ailargraffiadau neu argraffiadau newydd, rhaid dangos blwyddyn gyhoeddi'r ailargraffiad neu argraffiad newydd yn glir.

19 Rhaid i'r awdur dderbyn a llofnodi cytundeb cyn y cyhoeddir y llyfr. Dylai awduron dderbyn tâl yn brydlon yn unol â'r amserlen daliadau yn y cytundeb. Ar ôl cyhoeddi'r gwaith, dylai'r awdur dderbyn datganiad ariannol a thâl os yw'n berthnasol o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai cytundeb yr awdur nodi pryd y gellir disgwyl datganiadau breindal a thaliadau o'r fath.

20 Rhaid i'r cyhoeddwr ddarparu pedwar copi cyfarch o'r gwaith cyhoeddedig i Gyngor Llyfrau Cymru wrth hawlio'r grant bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn archebu;r rhain yn uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu. Os yw copïau o'r llyfr wedi eu cyflenwi'n barod o dan gynllun gwahanol, ni fydd angen i'r cyhoeddwr gyflenwi pedwar ychwanegol i gyflawni'r amod hwn oni bai bod yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn gofyn yn benodol.

**21 Yn achos unrhyw lyfr sy'n derbyn cymorth grant, dylid hysbysu'r Cyngor Llyfrau am unrhyw gymorth ariannol a dderbyniwyd tuag at gyhoeddi'r llyfr o unrhyw ffynhonnell arall heblaw Cyngor Llyfrau Cymru.**

22 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru ar delerau'r Cyngor Llyfrau (fel arfer archeb o 60 copi o leiaf o bob teitl, ond uwch yn aml, ar sail gwerthu neu ddychwelyd fel y gellir eu darparu i fanwerthwyr ar y telerau masnachol arferol.

23 Mae'n amod bod llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd ag y byddant ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu fanwerthwr, neu ar gael mewn lansiad neu ddigwyddiad arall. Y cyhoeddwr fydd yn gyfrifol am gludo a chyflenwi'r llyfrau'n brydlon.

24 Os oes fersiynau Cymraeg a Saesneg o lyfr ar gael, ac un o'r fersiynau hynny wedi derbyn cymorth grant, yna rhaid i'r ddwy fersiwn fod ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodwyd yn amodau 22 a 23.

25 Dylai pob llyfr sy'n derbyn cymorth grant fod mewn print ac ar gael yn gyson yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau am o leiaf un flwyddyn ar ôl cyhoeddi. Os llwyddir i werthu'r hawliau o fewn y deuddeng mis cyntaf ar ôl cyhoeddi pan mae'n rhaid cadw teitl sydd wedi derbyn cymorth grant mewn print, dylai'r cyhoeddwr geisio caniatâd

ac arweiniad gan Adran Datblygu Cyhoeddi y Cyngor Llyfrau, neu wynebu'r posibilrwydd o orfod ad-dalu cyfran o'r grant. Os na fydd llyfr ar gael neu allan o stoc yn ystod y flwyddyn gyhoeddi gyntaf, bydd hawl gan y Cyngor Llyfrau i hawlio ad-daliad grant o hyd at £1,000 y teitl. Nid yw hyn yn cynnwys cydargraffiadau a llyfrau rhyngwladol a thymhorol, er enghraifft rhai llyfrau a gyhoeddir ar gyfer y Nadolig. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw problemau gyda rhwymo, er enghraifft, neu rediadau argraffu annigonol, yn effeithio ar argaeledd. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu mewn da bryd i fodloni'r amod hwn.

26 Ni ddylid gwerthu hawliau DU teitlau sydd wedi derbyn cymorth grant heb ganiatâd y Cyngor Llyfrau ymlaen llaw o fewn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyhoeddi.

27 Os na chyflawnir y dibenion y rhoddwyd y grant ar eu cyfer mewn da o bryd, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, mae'n bosibl y bydd y Cyngor Llyfrau'n gofyn i'r derbynnydd ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi ei dalu.

28 Bydd y cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'u holynwyr mewn teitl y bydd y cyhoeddwr bob amser o hyn allan yn diogelu ac yn digolledur Cyngor Llyfrau rhag pob achos, cost, hawliad a gorchymyn cysylltiedig ag unrhyw weithred allai arwain at dorri unrhyw un o ddeddfau Cymru a Lloegr.